

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyfuno: Trechu Tlodi trwy Ddiwylliant

## Rhaglen yr Ardaloedd Arloesi 2016-17

- Daeth **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (cyswllt ar gyfer gwybodaeth)** i rym ym mis Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, feddwl mwy am yr hirdymor, i weithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, i geisio atal problemau ac i weithio mewn modd mwy cydgysylltiedig. Bydd hyn yn ein helpu i greu'r Gymru y mae pawb eisiau byw ynddi, yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol inni 'weithio ar y cyd gydag amrywiaeth ehangach o gydweithwyr a rhanddeiliaid i wneud cysylltiadau rhwng heriau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ac i ddod o hyd i atebion cynaliadwy ar y cyd'.
- Mae Rhaglen **Cyfuno: Trechu Tlodi trwy Ddiwylliant (cyswllt ar gyfer gwybodaeth)** yn ymgorffori'r egwyddorion hynny i raddau helaeth a bydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at nifer o nodau'r Ddeddf. Mae'n fframwaith trosfwaol lle gall nifer o sefydliadau gyfrannu at yr agenda hon, sy'n agenda ar y cyd. Cyn hyn, ni chafodd y defnydd o ddiwylliant ei hyrwyddo mewn modd strategol fel hyn, ni chafodd y dull hwn ei annog ac nid aethpwyd ati ychwaith i werthuso'r fath ddull.
- Sefydlwyd **Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol (CIB)** i oruchwylio'r rhaglen. Ei gylch gwaith yw hyrwyddo newid ar draws amrywiaeth eang o adrannau yn Llywodraeth Cymru, Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau diwylliannol a chymunedol ar draws yr awdurdodau lleol a'r trydydd sector. Rydym yn gweithredu ar y cyd ar nifer o feysydd blaenoriaeth gan gynnwys gwirfoddoli, prentisiaethau, trafnidiaeth a chysylltiadau ag addysg ffurfiol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys datblygu adnoddau penodol ac arferion gorau.
- Yn 2015-16, gwnaethom sefydlu'r **Rhaglen Ardal Arloesi** ac mae hynny'n elfen graidd o Cyfuno. Roedd 6 Ardal Arloesi yn rhan o'r Rhaglen. Daeth cyrff diwylliannol a chymunedol ynghyd i ddatblygu gweithgareddau diwylliannol newydd ac aethant ati i addasu rhaglenni a oedd yn bodoli eisoes er mwyn cefnogi rhaglen Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cymru.
- Cymunedau yn Gyntaf yw'r rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer trechu tlodi a chaiff ei chyflenwi mewn 52 o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae poblogaeth pob un o'r ardaloedd neu clystyrau hynny ar gyfartaledd yn 10-15,000. Mae pob clwstwr yn dilyn Cynllun Cyflenwi. Mae'r Cynllun hwnnw'n darparu gweithgareddau sy'n cyfrannu at gwrdd ag amrywiaeth eang o **ddeilliannau strategol** sy'n seiliedig ar iechyd, addysg a ffyniant. Mae'r rhaglen Arloesi Ardal yn seiliedig ar syniad syml sef darparu gweithgareddau diwylliannol sy'n cefnogi'r deilliannau hyn yn uniongyrchol.
- Mae cyrff diwylliannol a threftadaeth cenedlaethol, sy'n cynnwys Amgueddfa Cymru, Cadw a Chyngor Celfyddydau Cymru, yn helpu i reoli'r rhaglen ac maent hefyd yn asiantiaid cyflenwi ac yn bartneriaid sefydlu yn yr Ardaloedd Arloesi eu hunain. Mae amrywiaeth eang o sefydliadau diwylliannol lleol yn ategu'r cymorth hwnnw. Mae'r awdurdod lleol perthnasol yn bartner pwysig hefyd.
- Mae'r pwyslais ar gyrff diwylliannol yn sicrhau bod eu gwasanaethau a'u prosiectau'n gydnaws, a hynny er bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau yn yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Caiff hyn ei gynllunio drwy nodi a dadansoddi blaenoriaethau clystyrau lleol Cymunedau yn Gyntaf, a herio cyrff diwylliannol i lunio gweithgareddau a rhaglenni sy'n cwrdd â'r blaenoriaethau hyn. Bydd yr Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd yn parhau i gydweithio ar draws Llywodraeth Cymru ac yn ehangach gyda'r sector diwylliannol, y sector cymunedol ynghyd â'r sectorau eraill. Bydd yr Is-adran yn cydweithio'n

agos â nhw er mwyn sicrhau bod y rhaglenni sy'n bodoli ar hyn o bryd a'r cynigion newydd yn gydnaws, a thrwy hynny bydd modd iddi roi cefnogaeth uniongyrchol i'r Ardaloedd Arloesi a'r rhaglen Cyfuno yn ehangach.

» Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Amgueddfa Cymru i arwain y gwaith gwerthuso ac ymchwilio sy'n sail i'r rhaglen Cyfuno. Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddwyd **Adroddiad Gwerthuso** (**cyswllt ar gyfer gwybodaeth**) cynhwysfawr i asesu effeithlonrwydd y dull Ardaloedd Arloesi.

» Mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno i barhau â fframwaith Cyfuno yn 2016-17, a pharhau â'r Rhaglen Ardaloedd Arloesi ac ehangu arni drwy roi cyllid grant i gefnogi pob Ardal.

» **Drwy adeiladu ar y flwyddyn beilot, byddwn yn:**

  » parhau i roi pwyslais ar ddull gweithredu hyblyg ar 'lawr gwlad' er mwyn galluogi'r cymunedau a'r cyrff diwylliannol i ddatblygu dulliau gweithredu a gweithgareddau sydd fwyaf perthnasol i'r cymunedau eu hunain;

  » disgwyl i'r rhai sy'n cymryd rhan ddangos yn glir y modd y mae eu gweithgareddau'n seiliedig ar eu Cynlluniau Cyflenwi ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf a sut y maent yn ategu'r cynlluniau hynny;

  » disgwyl i'r rhai sy'n cymryd rhan gynnwys gwaith gwirfoddol, dysgu achredig a llwybrau at waith.

  » croesawu gweithgareddau sydd wedi'u hanelu at wella hyder ac ennyn diddordeb, ac sy'n arwain at weithgareddau mwy strwythuredig.

» Mae'r Ardaloedd Arloesi presennol a newydd wedi cyflwyno cynlluniau busnes gan ddangos yn glir sut y byddant yn gwella'r modd y caiff y rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf eu cyflenwi. Un o'r prif flaenoriaethau yn 2016-17 fydd cryfhau'r Rhaglen Ardal Arloesi a hynny drwy:

  » Gynyddu nifer yr Ardaloedd Arloesi a Chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf sy'n cymryd rhan;

  » Cynyddu nifer y prosiectau a'r niferoedd sy'n cymryd rhan ynddynt; a

  » Sicrhau bod amrywiaeth ehangach o bartneriaid yn darparu amrywiaeth ehangach o weithgareddau.


© Amgueddfa Genedlaethol Cymru


© Amgueddfa Genedlaethol Cymru


© Amgueddfa Genedlaethol Cymru

## Manylion yr Ardaloedd Arloesi a'r gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2016-17

| Manylion Ardal Arloesi | | Cynnig Amlinellol |
|---|---|---|
| Ardal Arloesi | Torfaen | Drwy weithio ar draws y ddau glwstwr Cymunedau yn Gyntaf sy'n bodoli yn Nhorfaen, bydd yr Ardal Arloesi yn ceisio mynd i'r afael â'r ffactorau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan yn y celfyddydau a bydd hefyd yn mynd ati i greu mwy o gyfleoedd ar eu cyfer. Bydd yn defnyddio sgiliau, arbenigedd a chreadigrwydd sefydliadau celfyddydol a diwylliannol gan gynnwys Cadw, Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru, Amgueddfa Pont-y-pŵl a Llantarnam Grange ynghyd â nifer o sefydliadau eraill, a hynny er mwyn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau. Bydd iechyd meddwl, gwirfoddoli i wella'r rhagolygon ar gyfer cael gwaith a gweithgareddau i ymgysylltu'n well i ennyn mwy o ddiddordeb yn yr ysgol a hyrwyddo cymorth teuluol ar gyfer dysgu. Bydd yr Ardal Arloesi yn sicrhau bod modd ymgorffori'r broses achredu i mewn i Wobrau'r Celfyddydau er mwyn ychwanegu gwerth at y cyfleoedd sydd eisoes yn bodoli megis y Cynllun Noson Allan. Bydd cynlluniau cenedlaethol ynghyd a dathliadau megis Canmlwyddiant Roald Dahl hefyd yn cael eu cynnwys yn y rhaglen. |
| Corff Arwain | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | |
| Grant | **£11,000** | |
| Ardal Arloesi | Wrecsam | Bydd Ardal Arloesi Wrecsam yn cefnogi'n uniongyrchol Gynllun Cyflenwi Cymunedau yn Gyntaf Wrecsam gan ddefnyddio Model Cyflogaeth 5-Cam. Bydd gweithgareddau a phrosiectau yn cyfrannu at y model hwn a bydd hefyd yn cefnogi rhaglen Cymunedau am Waith sef rhaglen ddwys sy'n cynorthwyo pobl sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar ers tro byd i gael gwaith. Bydd amrywiaeth eang o bartneriaid diwylliannol yn cyfrannu at y rhaglen gan gynnwys Oriel Wrecsam, Amgueddfa Wrecsam, ymysg eraill. Bydd gweithgareddau yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar ennyn diddordeb cyn symud ymlaen at hyfforddiant mwy ffurfiol a byd gwaith. Bydd hefyd yn darparu hyfforddiant achrededig a chyfleoedd megis gwirfoddoli. Ar gyfer 2016/17, un o flaenoriaethau trawsbynciol yr Ardal Arloesi fydd cefnogi'r 'datblygiad newydd ar gyfer y Celfyddydau a'r Diwydiannau Creadigol' ym Marchnad y Bobl. Yn ddiweddar, dyfarnwyd £4.5 miliwn ar gyfer y prosiect a bydd yn cynnig nifer o gyfleoedd i bobl gymryd rhan yn y rhaglen. |
| Corff Arwain | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | |
| Grant | **£11,000** | |

| Manylion Ardal Arloesi | | Cynnig Amlinellol |
|---|---|---|
| Ardal Arloesi | Caerffili | Bydd Ardal Arloesi Caerffili yn defnyddio diwylliant a threftadaeth fel ffordd o gael teuluoedd ledled y sir i gymryd rhan a gwella'u sgiliau, ac yn eu cefnogi nhw i gael profiadau newydd a mynd i'r afael â ffactorau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan. Bydd yr Ardal Arloesi yn defnyddio'r asedau diwylliannol sydd ar gael yn y Fwrdeistref (ac yn ehangach) gan gynnwys Castell Caerffili, Llancaiach Fawr, Amgueddfa Tŷ Weindio ymysg nifer eraill, i hyrwyddo mwy o ymwybyddiaeth am dreftadaeth leol a rhoi cyfleoedd newydd iddynt gan gynnwys sgiliau a hyfforddiant.<br><br>Bydd y rhaglen yn cefnogi'n uniongyrchol gynlluniau cyflenwi 4 clwstwr Cymunedau yn Gyntaf y sir. Yn bennaf, bydd yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau dysgu fel teulu, ac iechyd a llesiant (gan gynnwys iechyd meddwl), a hyrwyddo gwaith gwirfoddol i wella cyfleoedd pobl i gael gwaith. |
| Corff Arwain | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | |
| Grant | **£17,000** | |
| Ardal Arloesi | Conwy | Bydd rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a Gwasanaeth Diwylliant Cyngor Conwy yn cydweithio gyda phartneriaid y prosiect i sicrhau bod gweithgareddau diwylliannol yn ymwreiddio yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a hynny drwy gynnal amrywiaeth o weithgareddau diwylliannol. Bydd y rhain yn cael eu datblygu ar y cyd ag amrywiaeth o bartneriaid diwylliannol gan gynnwys Amgueddfa Llandudno, Venue Cymru, Theatr Colwyn, Oriel Mostyn, Cadw ac eraill. Bydd yr Ardal Arloesi yn cyfrannu at flaenoriaethau ehangach Conwy ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf. Bydd yn canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu amrywiaeth eang o sesiynau blasu, cyrsiau dysgu achrededig a chyrsiau dysgu nad ydynt wedi'u hachredu, gwaith gwirfoddol a lleoliadau gwaith sy'n gysylltiedig â 5 prif sector cyflogaeth allweddol megis adeiladu a thwristiaeth. Bydd y rhain yn helpu'r rheini fydd yn cymryd rhan i symud ymlaen at weithgareddau a fydd yn cyfrannu at gyflogadwyedd a chyfleoedd pellach i gael gwaith/hyfforddiant a phrofiad gwaith. |
| Corff Arwain | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | |
| Grant | **£8,000** | |

| Manylion Ardal Arloesi | | Cynnig Amlinellol |
|---|---|---|
| Ardal Arloesi | Sir y Fflint | Bydd Cyngor Sir y Fflint, drwy weithio gyda'r ddau glwstwr Cymunedau yn Gyntaf o fewn y sir, ynghyd â lleoliadau diwylliannol a phartneriaid ar draws y sir, gan gynnwys Theatr Clwyd, Dyffryn Maes Glas, Cadw ac eraill, yn llunio rhaglen o weithgareddau a fydd yn annog trigolion ardal Cymunedau yn Gyntaf y sir i gymryd rhan mewn digwyddiadau a phrosiectau diwylliannol, gan weithio gyda phobl o bob oed a gallu, a chanddynt brofiadau amrywiol hefyd. Bydd yr Ardal Arloesi yn canolbwyntio ar gynulleidfaoedd sydd â blaenoriaeth megis teuluoedd y mae angen cymorth arnynt i ddarparu profiadau addysgiadol sy'n cyfoethogi bywydau, pobl y mae arnynt angen cymorth i ddatblygu sgiliau newydd er mwyn eu helpu i fynd yn ôl i fyd gwaith, a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Mae Cymunedau yn Gyntaf yn cyflwyno'r Llofnod Dysgu Teulu i nifer o ysgolion. Mae'r Llofnod yn offeryn a ddefnyddir i nodi dysgwyr a fydd o bosibl yn colli diddordeb, ac o'i ddefnyddio, gwelir lleihad yn nifer yr absenoldebau, cynnydd mewn cyrhaeddiad ac mae gwell cysylltiadau'n gyda theuluoedd sy'n anodd eu cyrraedd. Bydd yr Ardal Arloesi yn darparu sesiynau dysgu sy'n benodol i'r teulu mewn lleoliadau diwylliannol. Bydd yr Ardal Arloesi hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cyfres o gyfleoedd gwirfoddoli, gan sicrhau bod digwyddiadau diwylliannol ar gael ar gyfer trigolion Cymunedau yn Gyntaf. |
| Corff Arwain | Cyngor Sir y Fflint | |
| Grant | **£11,000** | |
| Ardal Arloesi | Gwynedd | Yn 2015-16, ffurfiodd Cyngor Gwynedd Ardal Arloesi Gwynedd. Gwnaeth y Cyngor hefyd dreialu rhaglen gydgysylltiedig o weithgareddau teuluol mewn lleoliadau diwylliannol gan dargedu teuluoedd anodd eu cyrraedd a dysgwyr sydd wedi colli diddordeb. Roedd y prosiect yn defnyddio'r Llofnod Dysgu Teulu, pecyn i helpu awdurdodau addysg i wella cyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad. Bydd yr Ardal Arloesi yn cefnogi'r Llofnod Dysgu Teulu drwy ddarparu amrywiaeth eang o sesiynau penodol ar gyfer dysgu fel teulu mewn lleoliadau diwylliannol gan gynnwys Castell Caernarfon, Galeri, Pontio a'r Amgueddfa Lechi Genedlaethol. Yn dilyn llwyddiant 2015/2016, bydd Cyngor Gwynedd yn parhau gyda'r prosiect hwn yn 2016/2017. Mae'r Ardal Arloesi hefyd yn datblygu prosiectau newydd, gan gynnwys creu cyfleoedd gwirfoddoli o fewn sefydliadau diwylliannol a sefydliadau treftadaeth er mwyn paratoi unigolion ar gyfer byd gwaith. Hefyd, bydd rhaglenni digidol achrededig yn cael eu darparu gan Gasgliad y Werin Cymru. |
| Corff Arwain | Cyngor Gwynedd | |
| Grant | **£8,000** | |

| Manylion Ardal Arloesi | | Cynnig Amlinellol |
|---|---|---|
| Ardal Arloesi | Sir Gaerfyrddin | Bydd Ardal Arloesi Sir Gaerfyrddin yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid gan gynnwys Amgueddfa Parc Howard, Gardd Fotaneg Genedlaethol, Plas Llanelly, Parc y Scarlets ymhlith eraill i ddatblygu cynllun o weithgareddau diwylliannol er mwyn cefnogi trigolion cymunedau sy'n dod o dan Cymunedau yn Gyntaf yn Llanelli, Trimsaran a Rhydaman. Bydd y rhaglen yn cefnogi'n uniongyrchol amcanion ehangach y Clwstwr, a gwahoddir partneriaid i gyflwyno cynigion ar gyfer prosiectau a fydd yn dangos sut y mae eu gweithgaredd nhw yn cefnogi'r amcanion ehangach hynny. Rhoddir blaenoriaeth i leoliadau gwaith a chyfleoedd gwirfoddoli, ynghyd â chynlluniau sy'n anelu at wella'r modd y mae teuluoedd yn ymddiddori yn addysg eu plant. |
| Corff Arwain | Cyngor Sir Gâr | |
| Grant | **£8,000** | |
| Ardal Arloesi | Abertawe | Mae Cyngor a Dinas Abertawe ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau wedi sefydlu Partneriaeth Dysgu Creadigol, sy'n cynnwys 80 o aelodau sy'n cynrychioli amrywiaeth eang o sefydliadau, gan ddarparu gweithgareddau ar draws y pum clwstwr Cymunedau yn Gyntaf yn Abertawe. Bydd aelodau'r Bartneriaeth yn cyflwyno cynigion sy'n dangos sut y maen nhw'n cefnogi deilliannau a blaenoriaethau'r clystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Bydd yr ardaloedd blaenoriaeth yn helpu pobl i feithrin sgiliau ar gyfer byd gwaith ac i ddod o hyd i waith, yn lleihau cyfradd y bobl ifanc sy'n ddi-waith ac wedi ymddieithrio, yn gwella gallu ariannol pobl ac yn gwella sgiliau sylfaenol oedolion. |
| Corff Arwain | Dinas a Sir Abertawe | |
| Grant | **£20,000** | |
| Ardal Arloesi | Caerdydd a Merthyr Tudful | Drwy weithio ar draws clystyrau Cymunedau yn Gyntaf BRG (Butetown, Riverside, Grangetown) Gorllewin Caerdydd a Gogledd Merthyr, bydd y rhaglen ar gyfer 2016-17 yn cefnogi gweithgareddau a fydd yn galluogi'r rhai sy'n cymryd rhan i ddatblygu eu hyder a'u sgiliau. Bydd cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli, dysgu achrededig a phrentisiaethau yn ganolbwynt i hyn oll. Bydd yr Ardal Arloesi yn gweithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid diwylliannol er mwyn llunio gweithgareddau sy'n cefnogi amrywiaeth eang o ddeilliannau Cymunedau yn Gyntaf, gan gynnwys hyrwyddo lles corfforol a meddyliol pobl, gwella sgiliau sylfaenol oedolion, helpu pobl i ddatblygu sgiliau newydd a dod o hyd i waith, a hyrwyddo cynhwysiant digidol. Un o'r elfennau y bydd yn canolbwyntio arni yw ehangu cynllun Geocache i gael pobl sy'n ddi-waith ers tro byd i brofi treftadaeth, i wirfoddoli ac i ymarfer y corff. |
| Corff Arwain | Prifysgol Caerdydd | |
| Grant | **£14,000** | |

| Manylion Ardal Arloesi | | Cynnig Amlinellol |
|---|---|---|
| Ardal Arloesi | Casnewydd | Drwy weithio ar draws y pedwar clwstwr Cymunedau yn Gyntaf sy'n bodoli yng Nghasnewydd, bydd y rhaglen ar gyfer 2016-17 yn adeiladu ar bartneriaethau a rhaglenni a ddatblygwyd yn ystod y flwyddyn beilot i gefnogi amrywiaeth o ddeilliannau sydd wedi'u diffinio. Mae'r rheini'n cynnwys defnyddio safleoedd diwylliannol i hyrwyddo gweithgareddau iach, cefnogi NEET neu pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET a hynny drwy hyfforddi a gwirfoddoli, prosiectau cynhwysiant digidol gyda grwpiau hanes lleol a grwpiau cymunedol, a chefnogi pobl ifanc i gymryd rhan mewn digwyddiadau sy'n gysylltiedig â diwylliant a threftadaeth megis Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd, Ymdaith y Siartwyr a rhaglen Hyrwyddo Pobl Ifainc Cyngor Celfyddydau Cymru. |
| Corff Arwain | Cyngor Dinas Casnewydd | |
| Grant | **£17,000** | |

ISBN: 978-1-4734-6803-0
OGL © Hawlfraint y Goron 2016 28995